

Cofion

Anfonwn ein cofion heddiw at ddwy chwaer – Bessie Owens (Cefn Berain) a Kitty Parry (Llanefydd) sy'n cael gofal yn yr Inffirmari ar hyn o bryd. Cyflwynwn y ddwy, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd.

Gweddiwn hefyd y bydd y rhai sy'n galaru am anwyliaid yn profi Duw yn ddigon y dyddiau hyn. "Da yw'r ARGLWYDD i'r rhai sy'n gobeithio ynddo, i'r rhai sy'n ei geisio." (Galarnad 3:25)

Gwaith Cwrs Ysgolion Sul Henaduriaeth Dyffryn Clwyd 2017

Gair i'ch hysbysu am fanylion gwaith cwrs yr Ysgolion Sul eleni. Y dasg a osodwyd i'r plant a'r ieuencid yw cywaith unrhyw gyfrwng ar y thema '**Gwyrthiau**'. Gofynnir am gywaith gyda'r holl blant wedi cyfrannu ato mewn unrhyw gyfrwng, e.e. gwaith ymchwil, ysgrifennu stori, dramodig, poster, gweddi, sgwrs ar dâp, sribed cartwn, cyflwyniad PowerPoint. Bydd arddangosfa o'r gwaith yn cael ei greu ar gyfer yr Henaduriaeth fydd yn cyfarfod yn Llanefydd ar Mai 12fed, pryd cyflwynir tystysgrifau, a bydd sgwrs, lluniaeth ysgafn ac adloniant i'r plant i ddiweddu'r noson. Bydd angen i'r cyweithiau fod yn barod **erbyn Ebrill 10fed**.

Ar gyfer yr oedolion, gofynnir am gyflwyniad ar yr un thema – '**Gwyrthiau**'. Os yn cyflwyno traethawd, dylid cyfyngu i ddim mwy na 1,000 o eiriau, neu gellir cyflwyno gwaith llaw neu arddangosfa flodau. Os am gyflwyno arddangosfa flodau, gofynnir i chi ddod â'r gosodiad ar y noson wobrwyo yn unig a gadael i Meirwen Hughes (01745 823802), yr ysgrifennydd, wybod ymlaen llaw er mwyn cael rhoi eich enwau yn yr adroddiad. Pob hwyl wrth baratoi'r gwaith!

I ddod

- **"GWAITH A GORFFWYS: : beth allwn ni ei ddysgu o Air Duw am reoli amser, gorweithio, delio â phwysau, gwyliau a gwneud y gorau o'n hamser?"** yn Ffestri Llansannan nos Fercher, Ionawr 25ain am 7.30. (Anfonwch unrhyw gwestiynau penodol ar y mater i Rhodri cyn y noson.)
- **OEDFA ARBENNIG I'R FRO** i dderbyn nifer o ieuencid yr Ofalaeth yn gyflawn aelodau o'u heglwysi lleol nos Sul, Ionawr 29ain am 6.00 yn Llansannan.
- **PENWYTHNOS PLANT GOFALAETH BRO ALED (8-12 OED)** yng Ngholeg y Bala, Chwefror 3ydd-5ed. Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob plentyn, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwysi Bro Aled. Bydd angen anfon y ffurflen i archebu lle, ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala **erbyn Ionawr 25ain**. Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei ddsbarthu yn ystod yr wythnos, ond os na fyddwch wedi derbyn gwybodaeth, plis cysylltwch â Gwion.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 15^{fed} Ionawr 2017

Darlleniad y Dydd

Mathew 8:5-13

(BCND tud.8 / BCN tud.8)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso cynnes i bawb ohonoch i'n hoedfaon ym Mro Aled heddiw. Wrth ysgrifennu'r geiriau hyn ar nos lau, rwy'n eich croesawu i'r oedfaon yn y gobaith y bydd rhai yn cael eu cynnal yn ein capeli oherwydd mae rhagolygon y tywydd yn ddigon ansicr ar hyn o bryd! Beth bynnag a ddaw, gweddiwn am gael profi bendith Duw wrth fyfyrto ar ddymuniad Dafydd edifeiriol i gael ei olchi fel y byddai'n wynnach nag eira (Salm 51:7), a'r newyddion bendigedig mai marwolaeth Mab Dafydd, yr Arglwydd Iesu Grist sy'n ein glanhau o bob anghyfiawnder a phechod! (1 Ioan 1:7-9) Ac wrth ystyried hyn, a chymaint o gredoau mwyaf sylfaenol Cristnogaeth, daw'n amlwg fod y geiriau 'trwy ffydd' yn allweddol. Mae glanhad o anghyfiawnder a phechod yn dod i Gristnogion trwy ffydd yng Nghrist, ac nid yn awtomatig i bawb oherwydd yr hyn wnaeth Iesu.

Yn ein darlleniad ar y cyd heddiw gwelwn ffydd yn cael ei ddangos mewn ffordd glir ac annisgwyl. Yn y darn dan sylw o Mathew 8 gwelwn ganwriaid yn pwysu ar Iesu am gymorth. Roedd y canwriad yn swyddog ym myddin yr Ymerodraeth Rufeinig ac yn gyfrifol am gant o ddynion eraill. O'r herwydd gwyddai'n iawn sut oedd pethau'n gweithio o ran awdurdod. Roedd ef yn derbyn gorchmynion gan y rhai uwch ei ben ac yntau gydag awdurdod dros y milwyr dan ei ofal. Gan fod y Rhufeiniaid yn llywodraethu Israel ar y pryd gallwn ddychmygu statws a dylanwad y gŵr hwn, ond nid yw'n defnyddio hynny i'w fantais yn ei sgwrs hefo Iesu. Yn hytrach, mae'n dod yn wylaidd at Iesu gan sylweddoli nad oedd yn deilwng o'i sylw (gan na fyddai Iddewon yn mynd i dai'r cenhedloedd gan y byddai hynny yn eu gwneud yn aflan yn ôl y Gyfraith). Ond er mor ostyngedig ydoedd, nid oedd yn rhy swil i erfyn am gymorth gan Iesu. Dibynnodd ar allu ac awdurdod Crist i ateb ei angen, neu'n fwy penodol i achub ac iacháu ei was, a dyna a ddigwyddodd (ad. 13). Oherwydd ei ffydd, mae Iesu yn ei ganmol, ac yn ei ddefnyddio fel enghraifft a rhybudd i rai oedd yn credu mai hwy oedd pobl Dduw. Mae'r wers hon gan Iesu yn parhau i ninnau heddiw hefyd. Wrth ystyried ein ffydd personol rhaid i ni gwestiynu ydym ni'n dibynnu ar awdurdod ac aberth Crist i faddau pechod neu ydym ni'n tybio mai dyletswydd Duw yw rhoi maddeuant i ni? Ydym ni'n credu y cawn etifeddu bywyd tragwyddol oherwydd pwy ydym, neu ydym ni'n barod i ddod at Iesu gan gydnabod ein heuogrwydd a phwyso'n unig ar ei gyfiawnder pur Ef? Gweddiwn am arweiniad yr Ysbryd Glân i'n hargyhoeddi a'n tywys at y cyfoeth difesur o ras sydd ar gael i'r edifeiriol trwy ffydd yn Iesu Grist.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 15^{fed} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwawr Davies, a bydd Gwion yn pregethu.
- Mawrth – 17^{eg} ➤ **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau – 19^{eg} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yng Nghapel Trefnant. Bydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod am 4.30, ac yna gwaith yr Henaduriaeth a throsglwyddo'r Llywyddiaeth i'r Parch. Nesta Davies am 6.00.
- Gwener – 20^{fed} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15 yng nghwmni criw Coleg y Bala.
- Sul nesaf – 22^{ain} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 15^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mercher – 18^{fed} ➤ Cynhelir Oedfa Dechrau'r Flwyddyn yng Nghefn Meiriadog am 7.00 gyda'r Parch. Dafydd Rees Roberts yn pregethu.
- Sul nesaf – 22^{ain} ➤ Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 15^{fed} ➤ Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa deuluol i'r daith yn Saron am 10.00. Bydd pwyllgor i ddilyn yr oedfa i drafod trefniadau yr Ysgol Sul ar gyfer 2017. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf – 22^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 15^{fed} ➤ Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf – 22^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 2.00 ac i'r plant a'r oedolion yn Groes am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 15^{fed} ➤ Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreded. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Llun – 16^{eg} ➤ Bydd Cymdeithas Llansannan yn cyfarfod yn y Festri am 7.30 pryd y bydd noson "Llên o'r Llan" o dan ofal Rhys, Sheila a Gwenno.
- Sul nesaf – 22^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i bawb o bob oed am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 15^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreded.
- Gwener – 20^{fed} ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i'w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul, Ionawr 15fed**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 22^{ain} ➤ Bydd y Parch. Dewi Tudur yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreded â'r oedfa yn Llanefydd am 10.00 a dosbarth yr oedolion am 11.15.

Manylion Cyswilt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darllenid Wythnos Nesaf

Numeri 21:4-9 (BCND tud.143 / BCN tud.131)